

# Doniau

## Darllen: Luc 10: 1, 3 – 9

‘Fedra i ddim darllen na sgwennu’, meddai Gari Wyn yn y gyfweiliad am ei swydd gyntaf. Roedd o’n ddigon gonest ond roedd wedi codi braw ar y cyfwelydd. Ceisio am swydd i ofalu am adar, anifeiliaid a chreaduriaid bychain eraill oedd Gari. Roedd yn fachgen digon cwrtais a pharod ei atebion ac yn awyddus iawn i gael y swydd. Yn ystod y cyfweiliad mynegodd cymaint oedd ei atgasedd tuag at yr ysgol – yr ysgol gynradd a’r uwchradd. Carchar oedd ysgol iddo a chadarnhawyd hyn gan ei athrawon. Prin y byddai’n presenoli ei hun a phan fyddai ar libart yr ysgol byddai’n boen i bawb – disgyblion ac athrawon fel ei gilydd. Yr awyr agored a’r byd o’i gwmpas oedd diléit Gari a dyna pam y daeth am gyfweiliad i’r ganolfan anifeiliaid.

Yn dilyn y cyfweiliad ffurfiol cafodd gyfle i fynd o gwmpas i weld y gwahanol greaduriaid gydag aelod arall o’r staff. Roedd wrth ei fodd. Wedi gwirioni’n lân. Ond dywedodd wrth yr aelod hwnnw hefyd nad oedd yn medru darllen na sgwennu. Mae’n amlwg fod hyn yn ei boeni. Ar ôl tridiau caled o gyfweld rhaid oedd dod i benderfyniad a phenodi. Ymhlith y dwsin a gyfwelwyd roedd un, gyda gradd M.Sc, wedi cyhoeddi yn y cyfweiliad ei bod eisoes wedi cael cynnig swydd i ymchwilio i gefndir planhigion yn fforestydd Borneo. Hi oedd yr ymgeisydd cryfaf o ddigon felly rhaid oedd ail ystyried. Heb yn wybod i’n gilydd roedd un ymgeisydd arall wedi dod i’r brig – Gari Wyn. Bu cryn drafodaeth ymhlith ein gilydd ac ar ôl oriau o bwysu a mesur dyma gynnig y swydd iddo. Codi’r ffôn a dweud, ‘Rydym am gynnig y swydd i ti,’ a’r ateb ar ei ben, ‘Gai ddechrau yfory!’ ‘Beth am naw o’r gloch fore Llun?’ A’r brwdfrydedd ben arall y ffôn, ‘fedrai ddim disgwyl. O diolch i chi’, a dyma’r llais yn troi at ei fam, ‘Mam, mi ydw i wedi cael y job’.

Pryderu cryn dipyn cyn y bore Llun. Tybed oedden ni wedi gwneud y dewis iawn? Fyddai o’n dod i’w waith yn rheolaidd? Beth am y darllen a’r sgwennu? Pam nad oedd yna neb wedi darganfod beth oedd ei

ddiddordeb a'i doniau ac wedi canolbwyntio ar y rheiny? Mae'n siur eich bod yn awyddus iawn i wybod beth ddigwyddodd?

Heb os rhoddodd ei orau i'r swydd. Yn brydlon yn ei waith bob bore, yn foneddigaidd wrth natur, yn barod i fynd yr ail filltir ond yr hyn oedd yn amlwg oedd y berthynas a'r cydadwaith rhyngddo â'r gwahanol greaduriaid. Dangosai dynnerwch a thosturi at bob creadur. Pan daflodd un o'i gydweithwyr wlithen o'r ardd i'r cae ymateb Gari oedd, 'mae pob dim eisiau byw wyddost ti'. Roedd wedi gwirioni'n lân pan welodd fod y wennol wedi dechrau nythu yn y cwt tractor. Byddai yno am gyfnod bob dydd yn cadw cofnod manwl o bob symudiad – faint o wyau oedd yn y nyth, faint oedden nhw wedi gymryd i ddeor a pha un oedd yn bwydo'r cywion – y ceiliog ynteu'r iâr. Roedd Gari yn prifio bob dydd a'i ddiddordeb a'i ddawn gynhenid yn datblygu.

Mae gan pawb ei ddawn a'r gamp ydi darganfod y ddawn yn y lle cyntaf, a'i meithrin yn ofalus. Mewn byd caled a didostur mor anodd ydi meithrin doniau ond mae gan yr eglwys gyfle i feithrin doniau'r aelodau i gyd. Dyna'r cyfle gafodd y disgyblion yng nghwmni Iesu. Mae Iesu, ymhob oes am roi cyfle i'w ddisgyblion ddatblygu eu doniau cynhenid oherwydd y mae wedi dod i'r byd i roi bywyd llawn i'w ddilynwyr, 'Yr wyf fi wedi dod er mwyn i ddynion gael bywyd, a'i gael yn ei holl gyflawnder' (Ioan 10: 10).

### **Myfyrdod pellach:**

Ydych chi wedi cael cyfle i ddatblygu eich doniau?

Faint o gyfle sydd yn eich eglwys leol i feithrin doniau pob aelod?